

PAWB – HYSBYSIAD PROSESU TEG

1. Pam ydym ni'n casglu a chadw eich gwybodaeth bersonol?

Rydym yn casglu a defnyddio'ch gwybodaeth bersonol achos:

Rydym yn derbyn arian cyhoeddus gan Lywodraeth Cymru, Cyngor Sir Benfro a chyrff eraill sy'n cyllido. Mae gennym gytundebau contractiol gyda'r cyllidwyr hyn i ddarparu a thystio i'n gwasanaethau. Yn ogystal mae'n achrediad Safon Ansawdd (AQS) a'n gwarchodaeth yswiriant yn ddibynnol ar ansawdd a chywirdeb ein cyngor, cefnogaeth a gwasanaethau eraill. Dim ond trwy gasglu ac asesu'ch da personol y gallwn wneud hyn.

Mae prosesu'ch data:

- a) Oherwydd i chi rhoi'ch caniatâd ar ei gyfer, trwy arwyddo'n polisi cyfrinachedd a derbyn y wybodaeth Prosesu Teg yma, pan fyddwch yn dod at ein sefydliad am gymorth.
- b) Oherwydd ei bod yn angenrheidiol gwneud hyn ar gyfer ein cytundebau arian cyhoeddus. Mae'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt yn cyflawni'r rhwymedigaethau sy'n rhan o'n cytundebau â nhw ar gyfer gwybodaeth ystadegol ac ariannol.
- c) Oherwydd ei bod yn angenrheidiol ar gyfer perfformio'n tasgau sydd â'r nod o ddarparu'r cymorth mwyaf cynhwysfawr y bydd ei angen arnoch ar gyfer eich gwasanaethau cartrefu, dyled a budd-daliadau lles.
- ch) Oherwydd bod gennym angen cyfreithlon anhepgor i wneud hynny, ar gyfer y buddion cymdeithasol ehangach, diogelwch staff a'r cyhoedd, diogelu arian cyhoeddus a diogelu grwpiau cleientiaid sy'n agored i niwed.

2. Sut mae gwybodaeth andanoch yn cael ei ddefnyddio.

Bydd y wybodaeth rydych chi'n ei ddarparu'n cael ei brosesu yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol 2018 (*GDPR*) ac yn cael ei weithredu'n unol â gofynion:

- a) Deddf Tai (Cymru) 2014
- b) Deddf Tai 1985
- c) Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol Troseddu a Phlisma 2015
- ch) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014
- d) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- dd) Deddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015
- e) Deddf Diwygio Lles 2012
- f) Deddf Cyflogaeth 2008
- ff) Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974
- g) Safonau Ansawdd Tai Cymru
- ng) Canllawiau Rhentu Doeth Cymru
- h) Safon Ansawdd Cyngor

Nid yw'r rhestr yn gyfyngedig.

PAWB – HYSBYSIAD PROSESU TEG

Mae gennym ddyletswydd i ddiogelu'r arian cyhoeddus rydym yn ei weinyddu ac mae'n bosib y defnyddiwn y wybodaeth rydych chi'n ei ddarparu, Gall hyn gynnwys: eich ffurflenni cychwynnol neu rhai wedi'u diweddarau, asesiadau risg mewnol ac allanol, ffurflenni cynllunio a chanlyniad ar gyfer cyngor/cefnogaeth. Bydd hyn hefyd yn cynnwys paru data gyda Chyngor Sir Benfro ar gyfer cyrchu lleoedd preswyl addas, cael cymorth ariannol ar eich cyfer, lleihau dyblygiad gwaith, adrodd yn ôl yn ystadegol ar gyfer ymchwil pellach i gartrefu, budd-daliadau lles a dyledion ac adrodd ar gyfundrefnau allanol a gytunir yn gytundebol gan ein cyllidwyr. Byddwn hefyd yn gwneud unrhyw ddatganiadau sydd eu hangen yn ôl y gyfraith. Mae'n bosib y byddwn yn rhannu'r wybodaeth gyda chyrrff eraill sy'n gyfrifol am ganfod/rhwystro twyll ac amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed.

Mae'n bosib y bydd rhaid i ni rannu'ch gwybodaeth gydag archwilwyr ein cyllid i sicrhau fod arian yn cael ei wario yn y dull mwyaf addas a chost effeithiol. Gellir rhannu gwybodaeth gyda thrydydd partïon er eich lles chi neu'r gymuned ehangach.

Fyddwn ni ddim yn gwneud datganiadau i drydydd partïon ar gyfer pwrpasau marchnata. Yr unig rôl farchnata sydd gennym yw hysbysebu eiddo Gosodiadau Pathway sydd ar osod a chodi ymwybyddiaeth am ein gwasanaethau cyngor a chefnogaeth i'r rhai hynny sy'n ddigartref neu dan fygythiad o fod yn ddigartref. Ni ddefnyddir unrhyw ddata personol.

Bydd eich data'n ddiogel ac yn gyfrinachol pob amsera byddwn ond yn casglu'r wybodaeth bersonol sydd ei hangen i asesu os ydych yn gymwys i gyrchu'n gwasanaethau ac er mwyn i Gymdeithas Gofal Sir Benfro i ddarparu gwasanaeth cynhwysfawr ac addas.

3. Pa mor hir fyddwn ni'n cadw'ch gwybodaeth?

Byddwn yn cadw'r wybodaeth a roddir i ni am 7 mlynedd. Ar ôl cau eich achos, caiff eich gwybodaeth ei waredu'n ddiogel unwaith nad oes ei angen rhagor.

4. Mynediad at fy ngwybodaeth bersonol?

Gallwch ddarganfod os ydym yn dal unrhyw wybodaeth bersonol amdanoch trwy wneud cais gwrthrych am wybodaeth o dan y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol 2018 (*GDPR*). I wneud cais am unrhyw wybodaeth bersonol y gallwn fod yn ei dal mae'n rhaid i chi wneud cais ysgrifenedig trwy gysylltu â:

PAWB – HYSBYSIAD PROSESU TEG

Y Swyddog Diogelu Data
Cymdeithas Gofal Sir Benfro
1 Tŷ Cornel
Stryd Ysgubor
Hwlfordd
Sir Benfro
SA61 1BW

5. Eich Hawliau

O dan y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol 2018 (*GDPR*) mae gennych hawliau fel unigolyn y gallwch eu harfer parthed y wybodaeth rydym yn ei dal amdanoch

- Hawl mynediad- mae gennych yr hawl i ofyn am fynediad i'r wybodaeth sydd gennym amdanoch ac i gael copi o'r wybodaeth
- Yr hawl i gywiriad- mae gennych yr hawl i ofyn am gywiro'r wybodaeth
- Gall yr hawl i gyfyngu ar brosesu fod yn gymwys- gallwch wneud cais ein bod yn atal rhag prosesu'ch data personol , fodd bynnag gall hyn arwain at oedi neu gall ein hatal rhag darparu gwasanaeth i chi. Byddwn yn ymdrechu i gydsynio â'ch cais ond mae'n bosib y bydd yn rhaid i ni ddal neu brosesu gwybodaeth er mwyn cydymffurfio gyda'n oblygiadau cyfreithiol.
- Yr hawl i wrthwynebu- nid yw hyn yn hawl ddiamod a bydd yn dibynnu ar y rheswm dros brosesu'ch gwybodaeth bersonol.

6. Cwynion neu ymholiadau

Mae Cymdeithas Gofal Sir Benfro'n ymdrechu i gyrraedd y safonau uchaf posibl wrth gasglu a defnyddio gwybodaeth bersonol. O ganlyniad rydym yn cymryd unrhyw gwynion parthed hyn o ddifrif. Rydym yn annog pobl i dynnu'n sylw at unrhyw achos sydd yn eu barn nhw'n annheg, yn gamarweiniol neu'n anaddas yn e modd rydym yn casglu neu'n defnyddio gwybodaeth.

Nid yw'r hysbysiad preifatrwydd yma'n rhoi manylion cynhwysfawr o bob agwedd o'n casglu a defnyddio o wybodaeth bersonol. Er hynny rydym yn hapus i ddarparu unrhyw wybodaeth neu esboniad pellach sydd ei angen. Dylid anfon unrhyw geisiadau am hyn at:

Y swyddog Diogelu Data
Cymdeithas Gofal Sir Benfro
1, Tŷ Cornel
Stryd Ysgubor
Hwlfordd
Sir Benfro
SA61 1BW

e-bost: path@pembrokeshirecaresociety.org.uk

Ffôn: 01437 765335

Last Reviewed
May-18
Information 6.190W